



Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

Coleg Gŵyr Abertawe

Mai 2021

Y canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau QAA am Goleg Gŵyr Abertawe

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.

- **Gellir teimlo hyder bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.**
- **Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.**

Y meysydd sydd angen eu datblygu

Canfu'r tîm adolygu'r **meysydd canlynol sydd angen eu datblygu** yng Ngholeg Gŵyr Abertawe sydd â'r potensial i wella ansawdd a/neu i sicrhau ymhellach bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy ac/neu yn gymaradwy. Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n fuddiol i Goleg Gŵyr Abertawe:

- sicrhau bod manylebau rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson, sy'n cael eu diffinio gan y Coleg, yn bodloni'r gofynion sydd wedi eu diffinio gan y corff dyfarnu (FHEQ)
- wneud y canllawiau'n fwy eglur sy'n ymwneud ag apeliadau academiaidd ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni Cenedlaethol Uwch Pearson (Cod Ansawdd y DU)
- ystyried datblygu canllawiau i gefnogi gwaith pob cyflogwr (Cod Ansawdd y DU).

Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 11 a 12 Mai 2021 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Mr Gary Hargreaves
- Dr Fiona Thompson
- Dr Harry Williams (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

Yr effaith a gafodd y pandemig COVID-19

Yn sgil y pandemig COVID-19, gweithredwyd yr adolygiad ar-lein ac, yn rhan o hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd gydag uwch dimau rheoli, staff addysgu a myfyrwyr. Mae cwmpas y dystiolaeth a ystyriwyd, a natur y beirniadaethau a'r cerrig milltir gweithredol wedi aros yr un fath, ond gwnaed rhai addasiadau am ei fod yn digwydd ar-lein. Yn ystod y pandemig, mae QAA wedi parhau i adolygu ei threfniadau ar gyfer cynnal adolygiadau ar-lein er mwyn canfod a lleihau unrhyw risgiau posibl.

Ynghylch Coleg Gŵyr Abertawe

Crëwyd Coleg Gŵyr Abertawe yn 2010 drwy gyfuno dau goleg cyfredol – Coleg Abertawe a Choleg Gorseinon. Mae'r Coleg yn cynnig ei ddarpariaeth ar nifer o safleoedd, sef pum campws yn ardal Abertawe a dau safle bychan yng nghanol y ddinas, gyda chyrsiau addysg uwch a gynhelir ar gampysau Tycoch, Plas Sgeti a Llwyn y Bryn. Fel arfer, byddai'r Coleg yn disgwyl adrodd ffigurau cyflogaeth o oddeutu 4,500 o fyfyrwyr llawn amser ac 8,000 o rai rhan amser ymhob blwyddyn academiaidd.

Mae'r Coleg wedi ei ymrwymo i ehangu cyfranogaeth ac mae'n ymfalchïo yn y cyfleoedd y mae'n eu darparu a chyfraddau cynnydd y myfyrwyr o addysg bellach i addysg uwch. Mae'r Coleg yn annog ac yn cefnogi ei fyfyrwyr yn frwd i archwilio posibiliadau addysg uwch, ac mae datblygiad addysg uwch yn un o amcanion strategol allweddol y Coleg.

Ar hyn o bryd, cynigir darpariaeth addysg uwch yn y meysydd a ganlyn: Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus; Iechyd a Gofal; Ieithoedd a'r Dyniaethau; Peirianeg; Lletygarwch, Teithio a Thwristiaeth; Mathemateg a Gwyddoniaeth. Cynigir amrywiaeth o gyrsiau yn y meysydd astudio hyn, gan gynnwys graddau sylfaen, Tystysgrifau a Diplomâu Cenedlaethol Uwch, cymwysterau Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig, cymwysterau Tystysgrif Broffesiynol (i Raddedigion) mewn Addysg a Hyfforddiant, prentisiaethau gradd, a graddau anrhydedd. Mae rhan o ddarpariaeth y Coleg yn atebol i gael ei hadolygu gan Estyn, a gallai'r tîm adolygu ddefnyddio adroddiadau Estyn fel man cychwyn ar gyfer eu harchwiliad o ddarpariaeth y Coleg.

Mae'r Coleg yn gweithredu ystod o bartneriaethau, gan gynnwys y rheiny gyda'i gyrff dyfarnu neu ei sefydliad dyfarnu, gydag ysgolion yn yr ardal a gyda chyflogwyr. Mae ganddo bartneriaethau gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Swydd Gaerloyw, a Phrifysgol Glyndŵr. Mae'r Coleg yn darparu prentisiaethau gradd ar y cyd â Phrifysgol Abertawe, a darpariaeth bartneriaeth gydweithredol o dan drefniadau etholfreinio gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol De Cymru, a Phrifysgol Swydd Gaerloyw.

Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)

1 Mae gan y Coleg drefniadau clir i sicrhau bod safonau academaidd y rhaglenni a gynigir yn cwrdd â, neu'n mynd yn uwch na, safonau trothwy'r DU sydd wedi eu disgrifio yn y FHEQ.

2 Mae cyfrifoldebau'r Coleg yn glir, er eu bod yn gwahaniaethu ychydig bach ar gyfer pob un o'i gyrff dyfarnu a'i sefydliad dyfarnu. Yn ystod yr ymweliad adolygu, cadarnhaodd y tîm adolygu fod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Amlinellir y rhain mewn rhestrau gwirio o gyfrifoldebau, ac hefyd mewn memoranda cytundeb neu drefniadau cydweithredol ac adroddiadau cymeradwyo. Mae'r gyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu'n cadw'r cyfrifoldeb pennaf am osod a chynnal safonau academaidd.

3 Mae'r mwyafrif o raglenni addysg uwch y Coleg sydd wedi eu hetholfreinio iddo'n cael eu llunio gan ei gyrff dyfarnu, er bod y Coleg yn cydweithio'n weithredol mewn dilysu ac ail-ddilysu, gan weithio gyda cholegau partner.

4 Dangosodd staff y Coleg ddealltwriaeth glir o'r ystod o fecanweithiau i sicrhau bod safonau academaidd rhaglenni addysg uwch y Coleg yn bodloni safonau trothwy'r DU. Mae'r prosesau dilysu a manylebau'r rhaglenni'n adlewyrchu'r FHEQ, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, Datganiadau Meincnodi Pwnc a phwyntiau cyfeirio allanol eraill. Yn ystod yr ymweliad adolygu, dywedodd y Coleg y byddent angen datblygu manylebau'n llawn ar gyfer rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson sy'n cael eu diffinio gan y Coleg, ac mae'r tîm adolygu'n ystyried hyn yn **faes sydd angen ei ddatblygu**.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

5 Y prif bwynt cyfeirio i'r Coleg yn nhermau fframweithiau safonau academaidd yw'r FHEQ. Fodd bynnag, mae gofyn i bob prifysgol a choleg yng Nghymru ddefnyddio FfCChC hefyd wrth alinio cymwysterau a chyflwyno credydau. Mae llawlyfrau a disgrifwyr modiwlau a manylebau rhaglenni'r Coleg yn cynnwys cyfeiriadau priodol at FfCChC, ac roedd y staff yn gallu esbonio sut i weithredu FfCChC yn y gwaith o gynnal safonau.

Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.

6 Nid oes gan y Coleg bwerau dyfarnu graddau. Mae'n cyflawni ei gyfrifoldeb i hybu safonau academaidd drwy sicrhau bod y cymwysterau'n gyson â chymwysterau cenedlaethol yn unol â fframweithiau a rheoliadau academaidd ei gyrff dyfarnu a'i sefydliad dyfarnu. Mae gan y Coleg wybodaeth a chanllawiau clir am eu cyfrifoldebau, sydd wedi eu diffinio yn y trefniadau cytundebol ac yn y rhestrau gwirio o gyfrifoldebau. Mae gan y staff ddealltwriaeth lawn o oruchwyliaeth a gweithrediad cyfrifoldebau'r Coleg.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.

7 Mae'r Coleg yn gwneud gwaith dadansoddi cymharol yn rhan o brosesau mewnol ac allanol ar gyfer dilysu ac ail-ddilysu rhaglenni. Yn rhan o rwydwaith y cyrff dyfarnu o golegau partner, gall y Coleg safoni ei ddarpariaeth a defnyddio data am gynnydd myfyrwyr mewn sefydliadau cyffelyb. Yn unol â gwaith ymchwil i'r farchnad a wnaed yn ystod prosesau dilysu, mae'r Coleg yn sicrhau bod ei fyfyrwyr yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol a'r adroddiadau monitro blynyddol am y rhaglenni'n siarad yn ffafriol am raglenni cyffelyb a gynigir gan ddarparwyr addysg uwch eraill yn y DU. Mae prosesau cadarn yn eu lle sy'n cynnwys Arweinwyr Rhaglen y Coleg sy'n gweithio gyda'r cyrff dyfarnu, Swyddogion Cyswllt partner, prosesau cymeradwyo, ail farcio a safoni asesiadau, byrddau arholi, a goruchwyliaeth gan arholwyr allanol.

8 Mae'r Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu a'r Strategaeth Addysg Uwch yn amlinellu bwriad y Coleg i adolygu a monitro'r holl adborth ansoddol a data meintiol ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu er mwyn sicrhau bod targedau'n cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys data am gofrestrriad, cynnydd a chyflawniad myfyrwyr. Mae Grŵp Strategol Cwricwlwm ac Ansawdd y Coleg yn goruchwyllo ansawdd, safonau a gwelliant, a'r prosesau ar gyfer monitro ac adolygu safonau; wedi eu llywio yn y pen draw gan y cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

9 Mae gan y Coleg gyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio'n glir ar gyfer pob agwedd o'i brosesau sicrhau ansawdd. Mae ganddo ystod eang o brosesau cadarn, gan gynnwys drwy ei bwyllgorau, i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy ar draws ei ddarpariaeth addysg uwch. Mae'r mwyafrif o'i raglenni addysg uwch yn cael eu dilysu gan brifysgolion partner (cyrff dyfarnu). Mae'r trefniadau allweddol yn cynnwys cydweithio a chysylltiad uniongyrchol rhwng Arweinwyr Rhaglen y Coleg a Swyddogion Cyswllt partner y cyrff dyfarnu. Yn cryfhau hyn ymhellach mae cydweithrediad â cholegau partner. Mae'r prosesau a'r gweithdrefnau wedi eu dogfennu'n dda ac maen nhw'n cynnwys cyfrifoldebau clir yr Arweinwyr Rhaglen, a chânt eu diweddar'u'n flynyddol. Mae Swyddogion Cyswllt y prifysgolion, neu weithwyr cyfatebol, yn cydweithio ag Arweinydd Rhaglen perthnasol yn y Coleg ac yn darparu adroddiadau ymweliad ac yn cysylltu ag arholwyr allanol.

10 Fel arfer, cymeradwyir yr holl asesiadau gan y Swyddog Cyswllt partner i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Os darperir y modiwlau gan y brifysgol a'r Coleg fel ei gilydd, defnyddir yr un asesiad, ond mae lle i'r Coleg adlewyrchu cyd-destunau lleol. Gwneir addasiadau trwy gytundeb rhwng yr Arweinydd Modiwl a Swyddog Cyswllt partner y brifysgol. Gwnaed addasiadau i asesiadau yn arbennig mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau ar y Coleg ar ôl 20 Mawrth 2020, yn unol â rheoliadau wrth gefn.

11 Mae gan y rhaglenni ystod o ofynion yn ymwneud ag ail farcio, neu samplu gwaith a aseswyd, gan yr Arweinydd Rhaglen, y Swyddog Cyswllt partner neu'r Arweinydd Modiwl er mwyn sicrhau bod y Coleg yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r corff dyfarnu. Y Coleg sy'n marcio asesiadau am y tro cyntaf, waeth pwy yw'r corff dyfarnu. Gall aelod arall o dîm addysgu'r Coleg wneud yr ail farcio. Mae'r Coleg yn defnyddio proses safoni fewnol i safoni asesiadau a sicrhau eu bod yn gyson. Cydlynir yr adroddiadau safoni am yr asesiadau gan y Swyddog Cyswllt partner. Mae esiamplau o'r adroddiadau'n rhoi sylwadau cadarnhaol am gysondeb, tegwch a chywirdeb prosesau asesu, gan dynnu sylw at arferion da sydd wedi eu nodi yn yr adborth gan aseswyr.

12 Penodir arholwyr allanol gan y corff/sefydliad dyfarnu perthnasol. Mae adroddiadau arholwyr allanol a samplwyd yn cefnogi'r farn bod y safonau trothwy a gyflawnwyd gan fyfyrwyr yn y Coleg yn cyrraedd y safonau cenedlaethol ar gyfer y sector.

13 Mae byrddau arholi'n ofyniad i bob un o'r prifysgolion. Er bod gwaith y byrddau'n cynnwys amrywiaeth o weithdrefnau, mae cysondeb hefyd, a gwneir rôl Cadeirydd y Bwrdd Arholi gan bob un o'r prifysgolion. Mae Arweinwyr Rhaglen y Coleg yn adrodd i'r Bwrdd. Mae Pearson yn gofyn i'r Coleg gyflwyno cofnodion eu byrddau arholi i'r arholwr allanol ac mae'r esiamplau a roddwyd o gofnodion yn dangos cydymffurfiad â gofynion y sefydliad dyfarnu.

14 Mae cylch ansawdd addysg uwch newydd ar waith o haf 2021 ymlaen a'r nod yw dechrau gweithredu'r broses gyda Chynllun Datblygu Ansawdd a Llais y Dysgwyr Addysg Uwch.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.

15 Mae'r Coleg yn gwneud defnydd llawn o'i gyrff dyfarnu a'i sefydliad dyfarnu i gefnogi'r rhaglenni a ddarperir ar draws y Coleg. Mae ymgysylltiad parhaus â chyflogwyr; cynhwysir y cyflogwyr mewn gwaith dilysu ac maent yn rhan annatod o gynllun strategol y Coleg. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn un o'r pwyntiau cyfeirio hanfodol i sicrhau bod y prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

16 Mae gan y Coleg nifer o fecanweithiau ffurfiol ar gyfer gwerthuso, monitro, adolygu a gwella ei arferion craidd sy'n ymwneud â'i ddarpariaeth addysg uwch. O haf 2021 ymlaen, bydd hyn yn cynnwys y cylch ansawdd addysg uwch newydd o dan gyfarwyddyd ac arweiniad strategol y Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd. Dirprwyir rhaglenni addysg uwch i saith maes dysgu, gyda grwpiau penodol i addysg uwch sydd â'u ffocws ar ysgogi camau i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth addysg uwch.

17 Mae'r Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd Addysg Uwch (Grŵp CAAU) yn goruchwyllo strategaeth ac effeithiolrwydd addysg uwch y Coleg. Mae Tîm Rheoli'r Coleg yn gyfrifol am adolygu a dadansoddi tueddiadau, a'r perfformiad ar gyfer adroddiadau rhaglenni blynyddol. Mae'r Grŵp CAAU hefyd yn monitro adborth gan fyfyrwyr. Mae'r Grŵp CAAU yn adrodd i Dîm Rheoli'r Coleg ac Is-Bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd corff llywodraethu'r Coleg. Mae cylch gwaith y Grŵp CAAU yn glir, ac mae ei gamau gweithredu diweddar yn dangos bod ganddo rôl gydgynghorol i ysgogi datblygiad a gwelliant.

18 Mae'r Coleg yn nodi bod y Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd wedi cyflwyno'r Grŵp Datblygu Ansawdd Addysg Uwch yn ystod y flwyddyn academiaidd gyfredol. Mae cylch gwaith y grŵp yn glir, ac mae esiamplau o'i gamau gweithredu diweddar yn dangos bod ganddo rôl allweddol i adrodd ar yr holl faterion datblygu ansawdd a sicrhau ansawdd.

19 Mae'r Grŵp Gweithredu Addysg Uwch yn cynnwys staff, Rheolwyr Maes Dysgu ac Arweinwyr Rhaglen. Mae ffocws y grŵp hwn ar rannu arferion, sicrhau cysondeb ar draws y gwahanol raglenni, adnabod datblygiad proffesiynol parhaus ac adrodd ar ansawdd y ddarpariaeth addysg uwch gan dynnu sylw at unrhyw welliannau gweithredol posibl, a'u hadrodd i'r Grŵp CAAU. Mae hyn yn cynnwys datblygu Cynllun Gweithredu Blynyddol trosfwaol.

Y Disgwyliadau o ran Safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Y feirniadaeth

20 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad a chyflwyniad y myfyrwyr; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth eang o staff a myfyrwyr, yn cynnwys Pennaeth y Coleg a chynrychiolydd un o'i gyrff dyfarnu. Galluogodd y cyfarfodydd a'r dogfennau i'r tîm adolygu weld dystiolaeth gadarn sy'n dangos bod safonau academaidd y cyrsiau'n bodloni gofynion y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt (y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, a'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin mewn perthynas â safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU); a bod y cymwysterau a ddyfernir yn gyfatebol i'r safonau a gydnabyddir gan y sector.

21 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod y safonau academaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.

Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr

Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

22 Mae'r broses o wneud cais i astudio yn y Coleg yn dibynnu ar y partner sy'n dyfarnu'r radd ar gyfer y rhaglen, ac hefyd ar y dull astudio arfaethedig. Gwneir cais am bob cwrs llawn amser i'r Coleg drwy UCAS, ond gwneir ceisiadau am gyrsiau rhan amser yn uniongyrchol i'r Coleg drwy ei wefan. Mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi eu hetholfreinio i'r Coleg gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol De Cymru, y Coleg ei hun sy'n rheoli'r ceisiadau. Ar gyfer rhaglenni sydd wedi eu hetholfreinio iddo gan Brifysgol Swydd Gaerloyw, y Brifysgol sy'n gweinyddu'r ceisiadau. Mae gan y Coleg Swyddog Derbyn a Chynnydd i Addysg Uwch penodol sy'n gyfrifol am weinyddu bob proses sy'n ymwneud â recriwtio a chofrestru myfyrwyr llawn amser a rhan amser.

23 Gall y broses o wneud cais am gwrs ofyn i'r myfyriwr fynd i gyfweiliad neu glyweliad, neu gyflwyno portffolio. Efallai y bydd rhaglenni penodol yn gofyn bod y myfyrwyr yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; os felly, mae'r Swyddog Derbyn a Chynnydd i Addysg Uwch yn gyfrifol am sicrhau bod y gofynion ychwanegol hyn yn cael eu bodloni. Penderfynir ar y cynigion gan Diwtor Derbyn, sef arweinydd y rhaglen fel arfer. Pan wneir y cynnig, anfonir Llyfryn Addysg Uwch y Coleg i'r ymgeisydd, ac mae hwn yn amlinellu'r broses gofrestru ac yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau ychwanegol.

24 Gallai'r ymgeiswyr ddatgelu eu hanghenion dysgu ychwanegol yn rhan o'u cais. Yna, cyfrifoldeb y Swyddog Derbyn a Chynnydd i Addysg Uwch fydd hi i sicrhau bod y gefnogaeth briodol ar gael i bob ymgeisydd, a hynny drwy weithio gyda Rheolwr Cymorth Dysgu'r Coleg. O ystyried y ffaith nad oes gan y Coleg bwerau dyfarnu graddau, mae'r cyfrifoldeb am gydnabod dysgu blaenorol yn parhau gyda'r corff dyfarnu graddau perthnasol neu Pearson. Mae'r Coleg yn cynorthwyo ei fyfyrwyr i wneud cais am gydnabod dysgu blaenorol, ond, gan y partner dyfarnu perthnasol y mae'r penderfyniad terfynol. Yn ystod yr ymweliad adolygu, cadarnhawyd mewn cyfarfodydd gyda'r myfyrwyr a'u cynrychiolwyr bod yr wybodaeth a ddarparwyd iddynt yn ystod y broses ymgeisio yn cyfateb â'u disgwyliadau.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.

25 Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am gymeradwyo'r ddarpariaeth, ac mae'r Coleg yn rhagweithiol wrth ddatblygu darpariaeth, gyda phrosesau mewnol sydd wedi eu llunio'n dda i gymeradwyo darpariaeth newydd, fel y gwelwyd gyda darpariaeth BAPLismona arfaethedig y Coleg. Yn bennaf, mae'r Coleg yn defnyddio modiwlau a rhaglenni a ddilysir gan y corff dyfarnu perthnasol. Ond, bydd y Coleg hefyd yn cynnig modiwlau penodol i'w cynnwys mewn darpariaeth sydd ar etholfraint. Mae hyn yn dangos ei fod yn cymryd rhan effeithiol yn y broses o gynllunio rhaglenni.

26 Mae tri grŵp sy'n canolbwyntio ar addysg uwch: y Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd Addysg Uwch (Grŵp CAAU), y Grŵp Datblygu Ansawdd Addysg Uwch, a'r Grŵp Gweithredu Addysg Uwch. Mae'r Grŵp CAAU yn ystyried darpariaeth newydd arfaethedig a gan Dîm Rheoli'r Coleg mae'r cyfrifoldeb am roi'r gymeradwyaeth derfynol i fwrw ymlaen â'r ddarpariaeth. Y Grŵp CAAU yw'r prif grŵp ar lefel strategol ar gyfer datblygu ansawdd ac addysg uwch, ac mae'n craffu ar effeithiolrwydd y systemau sicrhau a gwella ansawdd a'r dulliau o ddarparu'r holl ddarpariaeth addysg uwch. Cyflwynwyd y Grŵp Datblygu Ansawdd Addysg Uwch yn ystod y flwyddyn academiaidd gyfredol i ganolbwyntio ar sicrhau ansawdd y ddarpariaeth, canfod meysydd sydd angen eu datblygu, a rhannu arferion da. Y Grŵp Gweithredu Addysg Uwch

sy'n ysgogi gweithgareddau gwella ar lefel weithredol. Mae'r staff yn deall y gydberthynas rhwng y tri grŵp hyn yn dda, ac mae'n bwydo i mewn i'r cylch ansawdd addysg uwch blynyddol sydd newydd ei ddatblygu. Mae tystiolaeth i'w gweld o effeithiolrwydd a safon uchel y ddarpariaeth mewn adroddiadau arholwyr allanol; adroddiadau monitro blynyddol; adborth gan fyfyrwyr (gydag ystod eang o ddulliau, gan gynnwys defnyddio adolygiadau modiwl a'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr); yn ogystal â monitro parhaus, yn cynnwys monitro data, drwy'r tri grŵp addysg uwch ac yng nghyfarfodydd y timau cwrs.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academiaidd o safon uchel.

27 Mae'r cyrff dyfarnu'n cymeradwyo penodiad staff drwy broses sy'n dangos eu bod yn gymwys i addysgu ar lefel addysg uwch. Mae'r Coleg yn gofyn i bob aelod o'i staff addysgu fod â chymhwyster athrawon hyfforddedig, neu ennill y statws hwnnw o fewn dwy flynedd, ac maen nhw'n cynnig y cyfle i staff ymgysylltu â Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU ac ennill statws Cymrawd. Mae gan y Coleg Strategaeth Datblygu Staff gynhwysfawr sy'n disgrifio'r gwahanol ddulliau o benderfynu beth yw anghenion datblygiad staff aelodau unigol, timau a holl staff y Coleg, gan alluogi i'r Coleg bennu ei flaenoriaethau o ran datblygu ei staff.

28 Mae gofyn i'r staff wneud o leiaf 30 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn, ac mae cymorth ariannol ar gael gan fwrsariaeth neu gronfa datblygiad proffesiynol ar gyfer gwneud gweithgareddau ysgolheigaidd neu ennill cymwysterau lefel uwch. Mae'r Coleg yn cynnig cyfleoedd strwythuredig i gael hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus drwy ei ddarpariaeth 'Pontio'r Bwlch', sy'n defnyddio amrywiaeth o ddata er mwyn penderfynu beth yw anghenion datblygiad staff ar draws y Coleg. Mae 'Pontio'r Bwlch' yn gyfuniad o ddarpariaeth orfodol, sy'n gyflwyniad i'r rheiny sy'n newydd i addysgu ar lefel addysg uwch, a gweithgareddau datblygu staff, gan ddiweddu gyda chynhadledd addysg uwch flynyddol. Mae gan y Coleg broses adolygu perfformiad ffurfiol ar gyfer penderfynu beth yw anghenion datblygiad staff aelodau unigol neu holl staff y Coleg. Yn ogystal, mae gan y Coleg broses flynyddol o gynllunio staffio sy'n gynhwysfawr iawn.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academiaidd o safon uchel.

29 Cynllunnir adnoddau'n flynyddol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddata a mewnbwn gan Reolwyr Maes Dysgu, a chânt eu cymeradwyo gan Dîm Rheoli'r Coleg. Mae'r myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae gan y Coleg Ganolfan Prifysgol Addysg Uwch bwrpasol ar ei brif gampws, a bydd yn agor ysgol fusnes ar gampws Plas Sgeti ar gyfer 2021-22. Mae llyfrgell benodol i addysg uwch yn ogystal â chynghorydd llyfrgell addysg uwch, ac mae adnoddau electronig ychwanegol hefyd ar gael i'r myfyrwyr gan y brifysgol sy'n dyfarnu eu gradd. Mae gwybodaeth ar gael i'r myfyrwyr ar rith-amgylchedd dysgu'r Coleg a, lle bo'n berthnasol, rhai'r corff neu'r sefydliad sy'n dyfarnu'r radd, ac mae llawlyfrau'r rhaglenni'n cynnwys cyfeiriadau at bolisiau a phrosesau perthnasol. Mae gan y Coleg wasanaethau cefnogi myfyrwyr sydd wedi eu sefydlu'n dda ac mae arweiniad a chymorth bugeiliol cynhwysfawr wedi ei adeiladu i mewn i'r rhaglen addysg uwch. Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi cyflwyno swyddi Hyfforddwr Gofal Bugeiliol ac Eiriolwr Addysg Uwch, ac mae'r Eiriolwr Addysg Uwch yn sicrhau bod anghenion myfyrwyr addysg uwch yn cael eu cynrychioli ymhob polisi a gweithdrefn.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

30 Mae'r Fframwaith Cynnwys Dysgwyr Addysg Uwch yn amlinellu'r ffordd y mae'r Coleg yn bwriadu cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd

eu profiad addysgol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r myfyrwyr drwy strwythur sefydledig o gynrychiolaeth myfyrwyr, a'u cynnwys mewn ymgynghoriadau, fforymau gweithredol a phrosesau o adolygu modiwlau a rhaglenni. Hefyd, clywodd y tîm adolygu gan fyfyrwyr oedd wedi bod yn cyfranogi'n ddiweddar mewn digwyddiad dilysu rhaglen oedd yn dangos bod y Coleg wedi bod yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr yn ei brosesau sicrhau ansawdd.

31 Etholir dau lywodraethwr y Coleg a Llywydd Undeb y Myfyrwyr o blith ei fyfyrwyr. Mae'r rolau hyn yn sicrhau bod clust i leisiau'r holl fyfyrwyr yn y Coleg, yn fyfyrwyr addysg bellach ac addysg uwch fel ei gilydd, a hynny ar bwyllgorau a grwpiau allweddol sy'n cynnwys Pwyllgor Gwasanaethau Dysgwyr y Coleg a Phwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd y Bwrdd Corfforaethol. Ar bob lefel o bob rhaglen astudio, mae'r myfyrwyr yn ethol cynrychiolwyr cwrs sy'n rhoi adborth yn rheolaidd i'r Arweinwyr Cwrs drwy fynychu cyfarfodydd y timau cwrs a'r Grŵp Gweithredu Addysg Uwch. Ar hyn o bryd, mae Undeb y Myfyrwyr yn darparu hyfforddiant gweddol anffurfiol i gynrychiolwyr myfyrwyr, ond, yn ystod y broses adolygu, amlinellodd Undeb y Myfyrwyr gynlluniau i ffurfioli'r hyfforddiant hwn yn y dyfodol.

32 Mae'r Coleg yn trefnu Fforymau Llais y Myfyrwyr ar lefel y cyrsiau, y cyfadranau a'r Coleg. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, mae Tîm Rheoli Addysg Uwch y Coleg yn derbyn adborth yn uniongyrchol gan y myfyrwyr a'u cynrychiolwyr am y cwricwlwm, y dysgu a'r addysgu, yr asesu, a'r cyfleusterau, gan gynnwys yr adnoddau sydd ar gael drwy'r llyfrgell. Gwahoddir bob myfyriwr addysg uwch i gymryd rhan yn Arolwg Llais y Dysgwr Addysg Uwch blynyddol y Coleg lle gofynnir cyfres graidd o gwestiynau iddyn nhw sy'n archwilio eu profiadau o gychwyn astudio yn y Coleg, ac o'r dysgu, yr addysgu a'r asesu. Mae'r Deon Cyfadrn perthnasol yn gyfrifol am archwilio data'r arolwg. Adroddir y data hwn hefyd i'r Grŵp Gweithredu Addysg Uwch a'r Grŵp Strategol Cwricwlwm ac Ansawdd, ac mae'r olaf yn gyfrifol am adolygu canlyniadau'r arolwg yn gyfannol, yn ogystal â gosod meincnod ar gyfer boddhad ymysg y myfyrwyr. Gwneir archwiliad pellach o raglenni lle mae'r canlyniadau'n is na'r meincnod boddhad hwn, gan gynnwys cyfweiliadau gyda myfyrwyr pryderus. Mae'r myfyrwyr hefyd yn cwblhau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, ac mae'r Coleg yn ystyried data hwn mewn ffordd debyg i honno a amlinellwyd ar gyfer Arolwg Llais y Dysgwr Addysg Uwch.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.

33 Mae gan y Coleg bolisiâu sefydledig ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr am faterion anacademaidd, ac asesiadau, apeliadau a chamymddygiad academaidd. Gall myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru gyda'r Coleg gyflwyno cwynion gan ddefnyddio proses fewnol gymeradwy'r Coleg. Anogir y myfyrwyr i ddatrys cwynion yn anffurfiol gyda'r aelod o staff perthnasol neu'r gyfadrn berthnasol, er mwyn osgoi cŵyn ffurfiol. Os nad yw hyn yn bosibl, mae modd i'r myfyrwyr gyflwyno cŵyn ffurfiol i'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd drwy'r Uned Ansawdd. Gall y myfyrwyr nad ydynt yn fodlon â chanlyniad eu cwyn gyflwyno apêl i Bennaeth y Coleg, ac wedi hynny gallant apelio'n uniongyrchol i'r sefydliad dyfarnu neu, fel arall, i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch.

34 Gydag apeliadau academaidd, gall myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar raglenni ar etholfraint gan un o'r prifysgolion apelio'n uniongyrchol i'r partner perthnasol sy'n dyfarnu'r radd. Gall myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar raglenni Cenedlaethol Uwch Pearson a ddarperir gan y Coleg apelio yn erbyn marciau neu raddau gan ddefnyddio proses fewnol gymeradwy'r Coleg, sydd wedi ei hamlinellu yn y Polisi Asesu, Apelio a Chamymddwyn Academaidd. Ond, mae fersiwn gyfredol y polisi hwn yn nodi bod y broses apelio'n berthnasol i fyfyrwyr addysg bellach yn unig. Yn ystod y broses adolygu, cadarnhaodd y Coleg i'r tîm adolygu y byddai myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni Cenedlaethol Uwch Pearson yn apelio yn erbyn marciau neu raddau gan ddefnyddio'r broses sydd wedi ei hamlinellu yn y Polisi Asesu, Apelio a Chamymddwyn Academaidd sy'n golygu felly bod y testun yn anghywir. Felly, mae'r tîm yn ystyried y canlynol yn **faes sydd angen ei ddatblygu**: dylai'r Coleg wneud y canllawiau'n fwy eglur sy'n ymwneud ag apeliadau academaidd ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni Cenedlaethol Uwch Pearson.

35 Mae'r Coleg yn cadw cofnod o gwynion i ganiatáu i dueddiadau a meysydd sydd angen eu datblygu gael eu hadnabod. Mae'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd yn gyfrifol am roi adroddiad i Dîm Rheoli'r Coleg a Phwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd y Bwrdd Corfforaethol am natur y cwynion a dderbyniwyd, sut y cawson nhw eu datrys ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau gwelliant. Rhoddir gwybodaeth i fyfyrwyr yn ystod y broses ymsefydlu am y broses o wneud cwynion ac apeliadau academaidd. Mae gwybodaeth am gwynion ac apeliadau, gan gynnwys y dogfennau polisi eu hunain, hefyd ar gael ar wefan y Coleg.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.

36 Nid yw'r Coleg yn cynnig unrhyw raddau ymchwil.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwys bynnag sy'n eu darparu.

37 Mae gan y Coleg brosesau sydd wedi eu sefydlu'n dda ar gyfer canfod, cymeradwyo, monitro ac asesu lleoliadau gwaith a chyfleoedd dysgu seiliedig ar waith eraill. Mae'r myfyrwyr a'r staff yn ymwybodol o'r prosesau, ac mae'r myfyrwyr yn deall yr hyn a ddisgwyllir ganddynt a gyda phwy y dylent siarad os bydd unrhyw anawsterau. Mae gan y Coleg y cyfrifoldeb am asesu lleoliadau gwaith. Roedd y myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am y ffordd y rheolir y dysgu yn y gweithle a'r dysgu seiliedig ar waith, a'r cyfleoedd gyrfaol yr oedden nhw'n eu darparu. Mae'r cyflogwyr sy'n cymryd rhan mewn darparu prentisiaethau'n derbyn llawlyfr defnyddiol sy'n llawn gwybodaeth ac yn amlinellu eu cyfrifoldebau. Mae cyflogwyr sy'n cynnig cyfleoedd lleoliad gwaith yn rhan o ddarpariaeth arall yn derbyn cefnogaeth yn uniongyrchol gan arweinydd y rhaglen neu ddarlithydd y modiwl dysgu yn y gweithle. Mae'r tîm yn ystyried y canlynol yn **faes sydd angen ei ddatblygu**: dylai'r Coleg adeiladu ar y gefnogaeth effeithiol y mae'n ei chynnig i gyflogwyr sy'n darparu prentisiaethau ac ystyried datblygu canllawiau i gefnogi gwaith pob cyflogwr.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.

38 Mae gan y Coleg drefniadau ac adnoddau effeithiol ar gyfer cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol. Dosberthir y myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrсияu llawn amser i grwpiau tiwtora gyda thiwtor penodol sy'n gyfrifol am roi cymorth bugeiliol iddyn nhw a'u cyfeirio at wasanaethau cefnogi ychwanegol. Ni roddir myfyrwyr rhan amser mewn grŵp tiwtora, ond cânt eu cefnogi'n barhaus gan staff addysgu ac arweinydd y rhaglen. Clywodd y tîm adolygu sylwadau oedd yn gadarnhaol i gyd gan y myfyrwyr a'u cynrychiolwyr mewn perthynas ag ehangder a dyfnder y gefnogaeth y mae'r Coleg yn ei darparu. Cefnogir myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol drwy gydol eu hastudiaethau yn y Coleg gan rwydwaith cefnogi myfyrwyr cynhwysfawr sy'n cynnwys Tîm Cefnogi Dysgwyr a Thîm Niwroamrywiaeth y Coleg.

39 Mae'r Coleg yn buddsoddi'n sylweddol i wella cyflogadwyedd a sgiliau proffesiynol ei fyfyrwyr. Mae nifer o raglenni astudio addysg uwch yn cynnwys modiwlau sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau proffesiynol, ac mae hyn yn dangos bod y Coleg wedi ei ymrwymo i ymwreiddio cyflogadwyedd yn y cwricwlwm. I ychwanegu at hyn, nod rhaglen 'Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol' y Coleg yw darparu gwasanaeth cyngor gyrfaoedd a chyflogadwyedd i'r myfyrwyr. Mae gan y rhaglen dri phrif llyn, ac mae hyfforddwr, cynghorydd neu ymgynghorydd gyrfaoedd yn arwain bob un. Yr hyfforddwr gyrfaoedd yw'r pwynt cysylltu cyntaf ar gyfer unrhyw fyfyrwr o fewn y rhaglen ac mae yno i helpu myfyrwyr i deilwra eu curricula vitae, cynnal cyfweiliadau ffug a pharatoi'n ehangach i wneud cais am swyddi mewn gwahanol sectorau. Mae'r cynghorydd neu'r ymgynghorydd yn gyfrifol am ymgysylltu â chyflogwyr yn yr ardal leol a thu hwnt er mwyn

canfod cyfleoedd i gael swydd a allai fod ar gael i fyfyrwyr y Coleg. Mae datblygu sgiliau dysgu annibynnol yn ffocws allweddol i'r Coleg hefyd, ac mae tîm cynghorwyr llyfrgell y Coleg, yn ogystal â'i staff addysgu, yn darparu gwybodaeth a sesiynau i ddatblygu sgiliau academaidd.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

40 Mae'r trefniadau monitro ac adolygu wedi eu sefydlu'n dda, ac mae cylchoedd gwaith y tri grŵp rheoli – y Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd Addysg Uwch (Grŵp CAAU), y Grŵp Datblygu Ansawdd Addysg Uwch, a'r Grŵp Gweithredu Addysg Uwch – yn cynnwys datblygiad a gwelliant. Yn ogystal, mae cyfarfodydd rheolaidd y timau cwrs yn gyfle i adnabod ac ymdrin ag unrhyw faterion wrth iddyn nhw godi. Mae'r prosesau monitro blynyddol yn creu cyfleoedd i ystyried amrywiaeth o ddata, gan gynnwys adborth gan fyfyrwyr, a chanfod problemau a chamau gweithredu, ac mae'r Grŵp CAAU yn gyfrifol am fonitro'r camau hynny. Un o werthoedd sefydliadol craidd cynllun strategol y Coleg yw hunan-welliant. Mae'n ymwreiddio gwelliant yn ei weithgareddau i gyd ac yn ymdrin â'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu. Mae llais y dysgwyr yn elfen allweddol o'r broses hon. Mae amrywiaeth o gyfleoedd ar gael i'r myfyrwyr roi adborth i'r Coleg, a chyflwynir gwelliannau mewn ymateb iddynt. Yna hysbysir y myfyrwyr am y camau gweithredu a gymerwyd drwy broses 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'. Hefyd, defnyddir prosesau adolygu rheolaidd i ganfod anghenion datblygiad staff ar draws y Coleg a'r cyfleoedd i'w datblygu sy'n hysbysu'r fenter 'Pontio'r Bwlch'.

Yr arferion cyffredin: Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.

41 Mae'r Coleg yn ymgysylltu ag arbenigedd allanol a sefydliadau allanol mewn nifer o ffyrdd. Y system arholwyr allanol (a reolir gan y cyrff dyfarnu) yw'r brif ffynhonnell arbenigedd allanol. Yn y lle cyntaf, mae adroddiadau arholwyr allanol yn derbyn ystyriaeth gan dimau'r rhaglenni sydd hefyd yn defnyddio mewnbwn gan arholwyr allanol yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, mewn perthynas ag asesiadau. Mae'r prosesau monitro blynyddol yn cynnwys dadansoddiad o'r adroddiadau hyn. Am fod y ddarpariaeth addysg uwch yn alwedigaethol, mae'r Coleg yn defnyddio arbenigedd allanol, er enghraifft, gyda briffiau asesu byw a siaradwyr allanol. Mae'r Coleg hefyd yn gweithio'n agos â chyflogwyr yn yr ardal a'r rhanbarth i lunio a datblygu rhaglenni er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn ymatebol. Mae gweithgareddau dilysu a chymeradwyo cyrsiau, a reolir gan y cyrff dyfarnu, yn cynnwys mewnbwn allanol.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

42 Mae darpariaeth addysg uwch y Coleg wedi ei halinio'n agos â'r galw gan y cyflogwyr a'r diwydiant yn yr ardal. Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn gweithio gyda nifer o gyrff a sefydliadau dyfarnu graddau ac felly mae'n rhaid iddo weithredu yn unol â gwahanol reoliadau academaidd a gwahanol fframweithiau asesu sy'n amrywio yn ôl y rhaglen astudio. Caiff ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr ei fonitro'n barhaus gan bartneriaid dyfarnu'r Coleg a thrwy brosesau sicrhau ansawdd mewnlol y Coleg (gwelwch hefyd baragraffau 30-32).

43 Mae'r Coleg wedi ei ymrwmo i wneud gwahaniaeth positif i'w gymuned, a chlywodd y tîm adolygu gan y myfyrwyr a'r staff am nifer o esiamplau o fyfyrwyr o gefndiroedd anhraddodiadol sydd wedi cael canlyniadau da yn y Coleg. Cefnogir y myfyrwyr drwy gydol eu hastudiaethau, o'r cam derbyn hyd y graddio, gan rwydwaith cefnogi cynhwysfawr sy'n cynnwys aelodau penodol o'r staff i fyfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Rhoddir myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau llawn amser mewn grwpiau tiwtora gyda thiwtor penodol sy'n rhoi cymorth bugeiliol iddynt, a chefnogir y myfyrwyr rhan amser gan gyfuniad o arweinwyr a staff addysgu eu rhaglenni. Mae ffocws sylweddol ar ddatblygu gyrfaoedd, cyflogadwyedd a sgiliau proffesiynol, ac un esiampl o hyn yw rhaglen 'Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol' y Coleg.

Y Disgwyliadau o ran Ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Y feirniadaeth

44 I ffurfio ei feirniadaethau, gallai'r tîm adolygu archwilio ystod eang o dystiolaeth ddogfennol, sy'n cynnwys dogfen hunanwerthusiad a chyflwyniad y myfyrwyr; a gallai'r tîm adolygu hefyd gwrdd ag amrywiaeth eang o staff a myfyrwyr, yn cynnwys Pennaeth y Coleg a chynrychiolydd un o'i gyrff dyfarnu. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu archwilio'r ddarpariaeth addysgol a gynigir i'r myfyrwyr, o'r cam derbyn hyd y graddio. Roedd y tîm adolygu'n gallu gweld dystiolaeth gadarn oedd yn dangos bod y cyrsiau wedi eu llunio'n dda, gan ddarparu profiad academaidd o safon uchel; a lefel sylweddol o gymorth academaidd a bugeiliol, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, sy'n galluogi i'r myfyrwyr lwyddo ym maes addysg uwch ac elwa o'r addysg uwch. Galluogodd y dystiolaeth i'r tîm adolygu weld bod y ddarpariaeth yn bodloni'r Disgwyliadau, yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin yn ymwneud ag ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU.

45 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

46 Mae gan y Coleg ymrwymiad strategol i hybu'r iaith Gymraeg a gwella ei ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn unol â disgwyliadau'r Safonau Iaith Gymraeg. Y Rheolwr Iaith Gymraeg yn y Coleg sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau bod y Coleg yn parhau i gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg ac yn adrodd ar gynnydd ac unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu i'r Grŵp Datblygu'r Gymraeg a'r Grŵp Gweithredu'r Gymraeg. Mae'r Grŵp Datblygu'r Gymraeg yn cyfarfod bob tymor, ac mae'n gyfrifol am adnabod unrhyw rwystrau a allai effeithio ar y cydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg, ond mae'r Grŵp Gweithredu'r Gymraeg yn gweithredu fel lle cwrdd i Eiriolwyr y Gymraeg, sy'n gyfrifol am feithrin y Gymraeg yn y Coleg o fewn eu hadrannau a'u cyfadrannau eu hunain.

47 Mae'r Grŵp Strategaeth Cwricwlwm ac Ansawdd yn goruchwyllo gwaith Grŵp Datblygu'r Gymraeg. Mae'r camau gweithredu a bennir gan Grŵp Datblygu'r Gymraeg yn bwydo i mewn i'r broses flynyddol o gynllunio'r cwricwlwm drwy'r Grŵp CAAU ac, yn y pen draw, yn bwydo i mewn i gynllun gweithredol blynyddol y Coleg. Yng nghynllun gweithredol blynyddol 2020-21, nododd y Coleg bod angen ehangu'r ystod o raglenni a ddarperir yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar adeg yr adolygiad, roedd y Coleg wedi nodi nifer o feysydd targed sydd oll wedi eu cysylltu â meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, yn unol â strategaeth 'Cymraeg 2050'. Mae'r rhain yn cynnwys lechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Cyhoeddus, a Gofal Plant. Mae'r gwaith i gynyddu'r gyfran o gynnwys a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd hyn yn waith parhaus.

48 Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn gofyn i'w staff roi gwybod am lefel eu gallu yn y Gymraeg yn flynyddol. Ar adeg yr adolygiad, o'r 806 o aelodau staff oedd wedi nodi lefel eu gallu yn y Gymraeg, doedd gan 51.4% ddim sgiliau siarad Cymraeg, dywedodd 30.4% bod eu gallu i siarad Cymraeg ar lefel y dechreuwr, ac roedd gan y 18.2% oedd yn weddill ryw lefel o allu mewn siarad Cymraeg, o'r lefel sylfaen i fod yn rhugl. Mae Grŵp Datblygu'r Gymraeg yn mynd ati i fonitro nifer yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg, ac mae hyn wedi arwain at hysbysebu nifer o swyddi lle nodir bod sgiliau siarad Cymraeg yn un o'r sgiliau hanfodol. Mae'r Coleg hefyd yn annog ei staff i ymgysylltu â phrosiect 'Cymraeg Gwaith' Llywodraeth Cymru. Mae'r data am gofrestrriad yn dangos mai canran y myfyrwyr addysg uwch sy'n siarad Cymraeg yw 7.1%. Mae canran myfyrwyr y Coleg sy'n siarad Cymraeg yn weddol gyfatebol i'r ganran ym mhoblogaeth yr ardal leol lle mae'r Coleg.

49 Mae gan y Coleg ystod o bolisiau a gweithdrefnau i'w alluogi i ddarparu ei ddarpariaeth addysg uwch. Mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau hyn ar gael yn y Saesneg yn unig, ond gall y Coleg ddarparu copi Cymraeg ar gais. Anogir y myfyrwyr i gyflwyno eu gwaith yn y Gymraeg a gallent hefyd ofyn am gymorth tiwtor sy'n siarad Cymraeg. Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi penodi Darlithydd Sgiliau Cyflogadwyedd Cymraeg sy'n gyfrifol am ddarparu gwersi Cymraeg, gan hefyd gefnogi darparu cynnwys ym meysydd blaenoriaeth lechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn ystod eu hastudiaethau, mae'r Coleg yn annog y myfyrwyr yn frwd i ennill rhyw lefel o allu yn y Gymraeg.

QAA2621 - R12028 - Gorffennaf 2021

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2021
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk